CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Cabinet: 24 Mai 2021

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet ar 27 Mai a 3 Mehefin 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Gorffennaf 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 2 Gorffennaf 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-mai-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Cyfarfod blaenorol

Eitemau’r Prif Weinidog

Busnes y Senedd

Blaenoriaethau Deddfwriaethol


## Yn bresennol (drwy Teams)

- Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS
- Rebecca Evans AS
- Vaughan Gething AS
- Lesley Griffiths AS
- Jane Hutt AS
- Julie James AS
- Eluned Morgan AS
- Jeremy Miles AS
- Mick Antoniw AS

- Dawn Bowden AS
- Hannah Blythyn AS
- Julie Morgan AS
- Lynne Neagle AS
- Lee Waters AS


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-mai-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Swyddogion

- Shan Morgan, Yr Ysgrifennydd Parhaol
- Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Cabinet
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig
- Daniel Butler, Cynghorydd Arbennig
- Ian Butler, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Sara Faye, Cynghorydd Arbennig
- Clare Jenkins, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Mitch Theaker, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
- Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu'r Argyfwng COVID-19
- Charlie Thomas, Pennaeth Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a Llywodraethiant
- Piers Bisson, Cyfarwyddwr Trefniadau Pontio'r UE, Cyfansoddiad a Chyfiawnder
- Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol
- Nia James, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol
- James Gerard, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyfiawnder
- Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol
- Fliss Bennee, Cyd-gadeirydd y Gell Cyngor Technegol

# Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion 17 Mai.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-mai-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Eitem 2: Eitemau’r Prif Weinidog

## Cod y Gweinidogion

2.1 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet i fersiwn ddrafft o God y Gweinidogion gael ei rhannu â Gweinidogion er mwyn iddynt allu codi unrhyw gwestiynau cyn i’r fersiwn derfynol gael ei chylchredeg yn nes ymlaen yr wythnos honno.

2.2 Byddai’n bwysig i bob Gweinidog edrych yn fanwl ar gynnwys y Cod terfynol, hyd yn oed os oeddent yn gyfarwydd â’r fersiynau blaenorol, gan y byddai gofyn iddynt gadarnhau’n ysgrifenedig eu bod wedi gwneud hynny.

# Eitem 3: Busnes y Senedd

3.1 Dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd wrth y Cabinet fod cynnig i benodi’r Cwnsler Cyffredinol a nifer o setiau o Offerynnau Statudol wedi cael eu cyflwyno ar gyfer dadl ddydd Mercher, yn ogystal â sesiwn gyntaf Cwestiynau a Datganiad Busnes y Prif Weinidog. Hefyd byddai datganiad llafar ar Adnewyddu a Diwygio: Cefnogi Lles a Chynnydd Dysgwyr. Roedd disgwyl y byddai’r pleidleisio’n digwydd tua 3.55pm ddydd Mercher, pe bai angen hynny.

3.2 Cafwyd dau gais am Gwestiynau Brys, un mewn perthynas â’r digwyddiadau nos Iau yn Mayhill, Abertawe, a’r llall yn ymwneud â chynlluniau’r DU ar gyfer cytundeb masnach dim cwotâu ag Awstralia.

3.3 Dywedwyd y byddai’r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig y diwrnod canlynol ynghylch yr ymateb i’r digwyddiad yn Mayhill.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-mai-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Eitem 4: Blaenoriaethau Deddfwriaethol CAB(21-22)02

4.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur, a oedd yn gwahodd Gweinidogion i gytuno ar y Biliau i gael eu cynnwys ym mlwyddyn gyntaf Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, ac i gymeradwyo cylch gwaith Pwyllgor Sefydlog y Cabinet ar gyfer y Rhaglen.

4.2 Roedd yr argyfwng iechyd cyhoeddus, o ganlyniad i'r pandemig, yn ogystal â'r galwadau deddfwriaethol i hwyluso ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, wedi cael effaith sylweddol yn ystod diwedd y Senedd ddiwethaf ar allu'r Llywodraeth flaenorol i ddeddfu, ac roedd wedi arwain at ohirio nifer o Filiau pwysig ac uchel eu proffil yn ogystal â nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth.

4.3 Gan fod llawer o'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r pandemig ac ymadael â'r UE yn parhau, ochr yn ochr â'r angen i gyflawni blaenoriaethau deddfwriaethol y Llywodraeth newydd a chyflwyno is-ddeddfwriaeth i weithredu deddfau'r Senedd, byddai Pwyllgor Sefydlog y Cabinet ar gyfer y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cael ei sefydlu. Roedd y cylch gwaith a'r aelodaeth wedi eu nodi yn y papur.

4.4 Croesawodd y Cabinet y papur, gan gydnabod yr effaith ar adnoddau pan fo angen ymateb i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU.

4.5 Cymeradwyodd y Cabinet yr argymhellion yn y papur.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-mai-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cyfarfod y Cabinet: 24 Mai 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-mai-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-24-mai-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.